

# SL(5)545 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Maent yn diwygio gofyniad penodol a roddir ar ddarparwyr cofrestredig gofal cymdeithasol ac fe'u gwneir mewn ymateb i ledaeniad syndrom anadlol aciwt difrifol y coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn gosod gofynion ar ddarparwyr y gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n cael eu rheoleiddio gan y Ddeddf. Maent yn cynnwys gofyniad yn adran 10 i gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 ("y Rheoliadau Datganiadau Blynyddol") yn darparu manylion pellach am y datganiadau blynyddol. Maent yn cynnwys darpariaeth a wneir o dan adran 10(4) ynghylch erbyn pa ddyddiadau y mae'n rhaid cyflwyno'r datganiadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 9A a 10 o'r Rheoliadau Datganiadau Blynyddol. Mae'r rheoliadau hynny'n ymwneud ag erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid cyflwyno datganiadau blynyddol. Effaith y diwygiadau yw bod yn rhaid i ddarparwyr pob math o wasanaethau rheoleiddiedig bellach gyflwyno datganiadau blynyddol sy'n ymwneud â blynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-20 a 2020-21 erbyn 26 Mai 2021 fan bellaf.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ffurfiol ar y Rheoliadau hyn, ond y cafwyd ymgynghoriad byr gyda rhanddeiliaid allweddol (a restrir ym mharagraff 5 o'r Memorandwm Esboniadol).

Rydym hefyd yn nodi, yn unol â pharagraff 5 o'r Memorandwm Esboniadol, "Roedd y rhanddeiliaid hynny a ddewisodd wneud sylwadau yn ffafriol tuag at y bwriad i ohirio'r dyddiad cau ar gyfer datganiadau blynyddol".



Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

---

Dim.

Ymateb y Llywodraeth

---

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**11 Mai 2020**



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

**Legislation, Justice and Constitution Committee**